Gorllewin Cymru
Gwasanaeth cam-drin domestig
West Wales
Domestic abuse service
Ar gyfer oedolion, plant & phobl ifanc
For adults, children & young people

Mae Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru yn cynnig amrywiaeth o gefnogaeth i oedolion, plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o gam-drin domestig neu sy'n cael profiad ohono ar hyn o bryd. Gweithiwn gydag unigolion sydd mewn lloches neu sy'n byw yn y gymuned ar draws Ceredigion.

Os ydych chi, neu rywun rydych chi'n ei adnabod, yn cael profiad o gam-drin domestig, gallwch gysylltu â ni nawr:

LLINELL GYMORTH 24 AWR
Mae ein llinell gymorth 24 awr yn galluogi unigolion a theuluoedd i droi at gyngor a chefnogaeth y tu allan i oriau gwaith.

GOGLEDD CEREDIGION
01970 625585
DE CEREDIGION
01239 615385

www.westwalesdas.org.uk

Rhif Elusen Cyfrestredig: 1131539
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant Rhif: 06926414

Cymorth fel y bo angen

Cymorth fel y bo angen yw ystod o wasanaethau y cynigiwn i unigolion sy'n cael neu sydd wedi cael eu cam-drin yn y cartref ond nad ydynt yn byw mewn lloches ar hyn o bryd. Mae ein gwasanaeth cymorth fel y bo angen yn wasanaeth un-i-un gyda'r nod o'ch galluogi i deimlo'n ddiogel yn y cartref ac yn y gymuned trwy:

- Helpu i asesu'ch anghenion.
- Rhoi mynediad i wasanaethau i chi sy'n bodloni'r anghenion a nodwyd gennych.
- Helpu gyda dewisiadau tai, cyfreithiol a budd-daliadau.
- Cydnabod anghenion emosiynol ac addysgol y plant sydd ynghlwm a'u cyfeirio at y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc os oes angen.

LOCHESAU

Mae gennym **lochesau** sy'n darparu llety dros dro, mewn argyfwng i unigolion sy'n ffoi rhag camdriniaeth ddomestig.

West Wales Domestic abuse service
Children's & young people services

Mae'r gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc yn cynnig ystod o gefnogaeth i bobl 0 i 25 oed ac sydd wedi cael profiad o unrhyw gamdriniaeth ddomestig yn eu teulu neu yn eu perthnasoedd eu hunain.

Cynigiwn:

- Gymorth un-i-un
- Rhaglenni gwaith grŵp i helpu plant a phobl ifanc i ddeall a gwella ar ôl trawma cam-drin domestig.
- Rhaglenni grŵp ataliol mewn ysgolion a cholegau, yn ogystal â grwpiau teuluol, i'r rhai sydd wedi cael profiad o gam-drin domestig.

Rhaglen Rhyddid

Mae'r rhaglen Rhyddid yn codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud ag ymddygiad treisgar ac ymosodol, gan gynnwys cam-drin domestig, gan anelu at annog unigolion i fagu hyder a sgiliau i helpu datblygu perthnasoedd iach.

- Mae'n rhaglen 12 wythnos
- Mae'n agored i ferched 18 oed neu'n hŷn sy'n dymuno dysgu mwy am gam-drin domestig. Gallwch fynychu os ydych chi wedi gadael perthynas gamdriniol neu os ydych chi mewn perthynas felly ar hyn o bryd a heb benderfynu i adael eich partner.
- Gwneir asesiad cyn dechrau'r rhaglen.

Pecyn Cymorth Adfer

Rhaglen a ddyluniwyd i gefnogi unigolion sydd wedi cael eu cam-drin yn y cartref yw'r **pecyn cymorth Adfer** er mwyn edrych ar ffyrdd o ddatblygu strategaethau cadarnhaol o ymdopi â ffordd o fyw a chynorthwyo unigolion i adennill eu bywyd a datblygu bywyd newydd sy'n rhydd o gamdriniaeth.

- Mae'n rhedeg am 12 wythnos (yn ystod y tymor).
- Gwneir asesiad cyn dechrau'r rhaglen.

Atgyfeiriadau

- Derbyniwn atgyfeiriadau gan yr unigolion eu hunain, gan deulu, iechyd, addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, y gwasanaethau ieuenctid ac unrhyw un sy'n ymwneud â'r unigolion.
-

Hyfforddiant ymwybyddiaeth
Anelwn at addysgu a hysbysu unigolion a darparwyr gwasanaeth cysylltiedig trwy hyfforddiant sy'n helpu codi ymwybyddiaeth o'r materion yn ymwneud â cham-drin domestig a deall y llwybrau cymorth

Canolfan Wybodaeth
Mae Gweithwyr Proffesiynol Hyfforddedig yn darparu ystod o wasanaethau cymorth a chynghori
Ystafell Breifat
Yn darparu lle diogel a chyfrinachol i siarad
Ystafell Hyfforddi
Cynhelir cyrsiau hyfforddiant cyson yno, gan gynnwys y Rhaglen Rhyddid a'r Pecyn Cymorth Adfer

Siop Elusen (Canolfan Branwen, Aberteifi)
Mae'n helpu i gefnogi gwasanaethau hollbwysig ein sefydliad i deuluoedd sy'n dioddef o effeithiau cam-drin domestig trwy brynu eitemau, dillad a nwyddau i'r cartref newydd ac ail-law.

Pryd rydym ar agor?
Yn ystod yr wythnos: Dydd Llun i ddydd Gwener 9am-5pm

Canolfan Branwen
6 Stryd Y Bont
Aberteifi
SA43 1HY
01239 615700

42 Ffordd Portland
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 612225

Dechrau'n Deg Flying Start
Welsh Women's Aid National Quality Service Standards
Teuluoedd yn Gyntaf Families First
FUNDED BY COMIC RELIEF
cefnogi pobl supporting people
LLOYDS BANK FOUNDATION England & Wales
Cyngor Sir CEREDIGION County Council